

# CNYDAU GRAWN

YNG NGHYMRU – GOLWG  
GYFFREDINOL

CANLLAWIAU TYFU  
CNYDAU  
Gorffennaf 2008  
Cyf: 070101



## CYFLWYNIAD

Mae chwyddiant diweddar mewn costau bwyd a chlodiant wedi gwneud i dyfu cnydau grawn ymddangos yn ddewis apelgar ar ffermydd Cymru. Fodd bynnag, nid yw hinsawdd na phridd Cymru mor ffafriol ar gyfer tyfu gwenith fel ym mhrif ardaloedd â'r dwyrain Lloegr a'r Alban. Yn draddodiadol, y grawn pwysicaf yng Nghymru oedd haidd a cheirch. Mae'r ddau gnwd yma'n cynnig: llai o gostau gofal na gwenith; addasu'n well i bridd salach a'r hinsawdd wlyb; gwellt o ansawdd uchel ar gyfer bwyd a gwely; a marchnadoedd cynyddol ar gyfer grawn ar gyfer bwyd pobl.

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi golwg gyffredinol ar y cnydau grawn sy'n cael eu tyfu yng Nghymru, neu y gellid eu tyfu yng Nghymru.

## GWENITH

Mae'r rhan fwyaf (97%) o'r gwenith a dyfir ym Mhrydain yn cael ei hau yn y gaeaf. Gall mathau'r gaeaf roi llawer iawn o gnydau (10t/ha +) pan gânt eu tyfu ar bridd ffrwythlon. Fodd bynnag, mae amynt angen llawer iawn o ofal: yn nodweddiadol 200-250 kg N/ha; llyswenwyn yn yr hydref a'r gwanwyn; PGR (rheolydd tyfiant planhigyn); a thri i bedwar o chwistrellau ffwngleiddiad.

Mae gwenith melino (ar gyfer bara) yn well na gwenith porthiant, ond mae cnydau o fathau melino yn gyffredinol yn is ac mae angen rheoli'r cnwd yn ofalus er mwyn gallu ei felino.

Mae galw mawr ar draws y byd am wenith, ac mae diddordeb cynyddol yng Nghymru gan felinwyr a phobyddion sydd eisiau cael gwenith a dyfwyd yn lleol. Gwaetha'r modd, mae hinsawdd wlyb Cymru yn ffafrio afiechyd ffwngaid, yn arbennig llwydni a *Septori tritici*.

Ceir llai o gnwd â gwenith y gwanwyn, ac mae'n hwyr yn aeddfedu, ond gall fod yn ddewis da ar gyfer silwair cnwd cyfan, yn arbennig os caiff ei rhyng-gnydio â llyisiau. Mae hau ar y cyd â gwair (e.e. rhygwellt) hefyd yn opsiwn oherwydd gellir defnyddio'r cae i'w bori yn yr hydref ar ôl cynaeafu.

## HAIDD

Yn draddodiadol, haidd yw'r grawn pwysicaf yng Nghymru. Mae haidd yn gallu gwrthsefyll sychder yn well na gwenith, felly mae'n fwy addas ar gyfer pridd ysgafnach. Mae hefyd yn iawn gyda halen, ac felly gellir ei dyfu mewn caeau arfordirol y mae llwch dŵr môr yn effeithio arnynt. Nid yw haidd yn gallu gwrthsefyll pridd asidig a dwrlawn cystal, ac os yw'r amodau hyn yn debygol, yna efallai bod ceirch yn well dewis.

Ceir mwy o gnwd â mathau haidd gaeaf, ond mae amynt angen mwy o ofal na haidd gwanwyn. Am y rheswm hwn, mae gan haidd gwanwyn elw gros uwch yn aml. Gellir rheoli haidd gwanwyn hefyd dan Dir Gofal.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Defnyddir y rhan fwyaf o haidd ar gyfer porthiant anifeiliaid, ond mae galw cynyddol am haidd bragu lleol o feicrofragdai.

Mae Prifysgol Bangor yn ymchwilio i'r defnydd o haidd moel ar gyfer gwneud bara, grawnfwydydd brechwast a defnyddiau bwyd eraill i bobl.

Fel gyda gwenith, mae afiechyd mewn hinsawdd wlyb yn broblem, yn arbennig *Rhynchosporium* (sgaldio) a llwydni. Mae cryfder gwellt yn nodwedd bwysig arall mewn mannau agored; y gallu i wrthsefyll cwmpo - *lodging* (dadleoli rhan isaf y coesyn a'r gwreiddiau) a phlygu - *brackling* (torri rhan uchaf y coesyn).

## CEIRCH

Mae ceirch wedi cael diwygiad yn ddiweddar. Mae hyn yn rhannol oherwydd eu nodweddion iechyd llesol, gwerth bwydo uchel a'r ffaith bod gwell mathau ar gael, a gynhyrchwyd gan IBERS (IGER gynt).

Mae ceirch moel yn cynnwys llawer iawn mwy o brotein ac olew na cheirch traddodiadol. Golyga hyn bod gwerth porthiant uchel iddynt ar gyfer dofednod ac maent yn ddefnyddiol i gymryd lle soia mewnforiedig.

Mae gwneuthurwyr bwyd yn ehangu eu hamrywiaethau o gynnyrch ceirch yn gyflym, o'r uwd a'r bara ceirch traddodiadol i fariau grawnfwyd, bara, grawnfwydydd brechwast a hyd yn oed 'llefrith ceirch'.

Bydd ceirch yn goddef pridd gwlyb, asidig, ond nid ydynt yn goddef sychder yn dda iawn. Cryfder gwael i'r gwellt fu problem fwyaf ceirch yn draddodiadol, ond mae IBERS wedi gwneud datblygiadau sylweddol drwy ddatblygu amrywiaethau byrrach (*dwarf*) a mathau byr tal (*tall dwarf*) sy'n dal, ond â nodweddion gwellt cryf iawn y mathau byrrach. Llwydni a chawod goch brigdyfiant yw prif afiechydon ceirch.

## RHYG

Nid yw bara rhyg mor boblogaidd ym Mhrydain â gweddill Ewrop, ac felly mae'r farchnad ar gyfer grawn rhyg wedi'i chyfyngu. Fodd bynnag, mae'r galw yn cynyddu, a gellir tyfu rhyg ar bridd salach a chyda llawer iawn llai o ofal na gwenith. Mae rhyg yn dueddol iawn i gael ffwng mallryg oherwydd ei arferiad blodeuo agored. Mae mallryg yn ofnadwy o wenwynig i bobl a da byw.

## GWENITH YR ALMAEN (SBELT)

Mae gwenith Yr Almaen yn fath hynafol o wenith gaeaf a all oddef pridd gael a gaeafau oer. Mae cnydau'n llai na gwenith, ac mae'r gwellt yn dal a gwan. Mae'n aeddfedu'n hwyrach na gwenith cyffredin. Rhaid dibliso'r grawn cyn ei ddefnyddio, ond mae'r galw'n cynyddu gan bobwyr sy'n gwerthfawrogi blas gwenith Yr Almaen. Tyfir Gwenith Yr Almaen ar gontract fel rheol.

Am wybodaeth am fathau o wenith, haidd a cheirch, edrychwch ar Restr Argymelledig yr HGCA, ar gael yn [www.hgca.com](http://www.hgca.com)

## CNYDAU GRAWN LLAI CYFFREDIN

Tyfir amrywiaeth o gnydau grawn llai cyffredin hefyd, yn bennaf fel cnydau ar sail arbrofol. Mae'r rhain yn cynnwys gwenith emmer ac einkorn, haidd du (math o haidd moel) a bere (haidd hynafol, a dyfwyd ar draws gogledd Prydain ar un adeg). Tyfir Triticale (hybrid rhwng gwenith a rhyg) ar gyfer porthiant anifeiliaid, ac mae'n arbennig o ddefnyddiol oherwydd ei lefelau cymharol uchel o'r asid amino, lysin.